Datganiad i'r wasg gan yr ASA (QAA), CCAUC ac Estyn

Date: 27 Ionawr 2010

Title: Memorandwm Dealltwriaeth Teir-ran 'Newyddion da i Gymru'

Mae tri o'r cyrff sy'n sicrhau ac yn goruchwylio agweddau ar ansawdd ym Mhrifysgolion Cymru wedi llofnodi cytundeb heddiw sy'n eu rhwymo i weithio'n nes â'i gilydd.

Cafodd y Memorandwm Dealltwriaeth ei lofnodi heddiw yng Nghaerdydd gan Anthony McClaran, Prif Weithredwr yr ASA (QAA), yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'r Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r ddogfen yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer cydweithredu rhwng y cyrff a bydd yn sicrhau bod beichiau gweinyddol yn cael eu lleihau, bod arbenigedd yn cael ei rannu ac y bydd yr ymrwymiad hwn i gydweithio o fudd i fyfyrwyr ledled Cymru.

Dywedodd Anthony McClaran. Prif Weithredwr yr ASA: "Mae llofnodi'r memorandwm hwn yn newyddion da i Gymru. Bydd y ddogfen hon yn cryfhau'r berthynas ardderchog sydd eisoes gan yr ASA â CCAUC ac Estyn. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod ni'n rhannu arbenigedd gyda'r nod o ddatblygu a chefnogi gwelliannau yn y modd mae ansawdd addysg uwch yn cael ei reoli yng Nghymru.

"Rydym wedi dechrau ar yr ail ddegawd o ddatganoli yng Nghymru ac mae'r ASA yn awyddus i barhau i chwarae rhan ganolog mewn sicrhau arfer da yn ei phrifysgolion a sefydliadau eraill sy'n darparu addysg uwch, a bydd y memorandwm hwn o gymorth mawr iddi wneud hyn."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'n hanfodol i ni allu dangos bod y profiad mae myfyrwyr yn ei gael yng Nghymru yn parhau o ansawdd uchel. Drwy barhau i weithio gyda'r ASA ac Estyn, gan adeiladu ar ein cytundeb blaenorol, byddwn yn gallu datblygu meysydd sydd o ddiddordeb i ni i gyd, a chynorthwyo'r sector AU yng Nghymru drwy wella eglurder a lleihau'r baich gweinyddol ar y sefydliadau."

Dywedodd y Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Estyn: "Mae'n bleser mawn gen i lofnodi'r Memorandwm Dealltwriaeth hwn. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu'r hyfforddiant cychwynnol athrawon, hyfforddiant ieuenctid a gwaith cymunedol, a chyrsiau Cymraeg i Oedolion a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch Cymru. Buom yn gweithio gyda'r ASA a CCAUC yn ystod y blynyddoedd diwethaf i rannu gwybodaeth ac arbenigedd ac i ddatblygu protocolau ar gyfer gweithio gyda'n gilydd. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig lle mae meysydd dylanwad yn gorgyffwrdd, er enghraifft, lle caiff cyrsiau addysg uwch eu darparu mewn colegau addysg bellach yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth yn arwydd o'n hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth er lles dysgwyr AU yng Nghymru."

Nodiadau i olygyddion:

1 I gael gwybodaeth bellach a gofyn am gyfweliad cysylltwch â:
Matthew Mathias, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus, ar 01452 557088, m.mathias@qaa.ac.uk

2 Gwaith yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yw cadw golwg ar sut mae prifysgolion y DU yn cynnal eu safonau a'u hansawdd academaidd eu hunain. Rydym yn adolygu ac yn adrodd ar sut y maent hwy'n cyflawni eu cyfrifoldebau, yn tynnu sylw at arfer da, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Cyhoeddwn ganllawiau i helpu prifysgolion a cholegau'r DU i ddatblygu systemau effeithiol i sicrhau bod eu myfyrwyr yn mwynhau'r profiad dysgu gorau posibl.

3 O dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae gofyn i CCAUC sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd yr addysg mewn sefydliadau y mae'n darparu, neu'n ystyried darparu, cymorth ariannol ar gyfer eu gweithgareddau. Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw CCAUC. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal: addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau); ymchwil a wneir gan SAUau; a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach. Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon. Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

4 Mae'r Arolygiaeth yn gyfrifol am wneud arolygiadau annibynnol o ansawdd yr holl addysg a hyfforddiant a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (heb gynnwys addysg uwch ond gan gynnwys addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon a hyfforddiant ieuenctid a gwaith cymunedol). Nod yr Arolygiaeth yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy wneud arolygiadau a rhoi cyngor, er mwyn cefnogi'r weledigaeth a chyfeiriad strategol sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.